
**Rhif**: **1**

**Rhif y Cais / Application Number : C15-0759-41-LL**

**Cynllun lleoliad ar gyfer adnabod y safle yn unig. Dim i raddfa.**
**Location Plan for identification purposes only. Not to scale.**



Cais Rhif: C15/0759/41/LL
Dyddiad Cofrestru: 22/07/2015
Math y Cais: Llawn - Cynllunio
Cymuned: Llanystumdwy
Ward: Llanystumdwy

Bwriad: GOSOD FFERM SOLAR FFOTOFOLTAIDD (PV) AR Y TIR GYDA CHAPASITI O 5MW AR 9.05 HA O DIR AMAETHYDDOL YNGHYD A CHYFARPAR CYSWLLT, TRAC MYNEDIAD, COMPOWND ADEILADU, FFENS DDIOGELWCH A GWELLIANNAU TIRWEDDU
Lleoliad: TIR RHOSGYLL FAWR FARM, CHWILOG, PWLLHELI, LL53 6TQ

**Crynodeb o'r Argymhelliad:** CANIATÁU GYDAG AMODAU

**1. Disgrifiad:**

1.1 Mae hwn yn gais ar gyfer gosod paneli solar ffotofoltaidd ar dir amaethyddol am gyfnod o 30 mlynedd ar gyfer creu parc solar, ynghyd a gwaith atodol sy'n cynnwys gosod cyfarpar i gysylltu a'r rhwydwaith drydan, trac mynediad, compownd adeiladu, ffens ddiogelwch a gwelliannau tirweddu.

1.2 Mae safle'r cais yn mesur oddeutu 9.05 hectar (22.36 acer) ac mae'n cynnwys tir pori graddfa 5 sydd wedi ei leoli ar lethr esmwyth oddeutu 2km i'r dwyrain o bentref Llangybi. Mae'r safle mewn cefn gwlad agored yn y dirwedd donnog sydd rhwng ucheldiroedd canol Llŷn â Bae Ceredigion. Mae coedwigoedd aeddfed ar ddau ochr i'r safle a chloddiau a gwrychoedd o amgylch caeau'r safle a chaeau eraill yr ardal.

1.3 Mae Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SDdGA) Rhosgyll Fawr 350m i'r dwyrain o'r safle tra mae'r Lôn Goed yn rhedeg o'r gogledd i'r de rhyw 700m i'r dwyrain. Mae sawl heneb rhestredig yn yr ardal gan gynnwys maen hir Betws Fawr, Ffynnon Cybi a Gwersyll Carn Pentyrch, yr oll o fewn 2.5km o'r safle. Yn ogystal mae nifer o Adeiladau Rhestredig o fewn 2.5km i'r safle gan gynnwys Plas Talhenbont i'r de ddwyrain a Betws Bach, i'r dwyrain.

1.4 Mae'r bwriad yn golygu gosod paneli solar ar gyfer creu parc solar fyddai'n creu 5MW o drydan i'r Grid Cenedlaethol. Mae'r cais yn cynnwys yr elfennau isod:

- Rhesi o baneli pv ar echel gorllewin-ddwyreiniol. Fe fyddai'r paneli hyd at 2.4m at eu pwynt uchaf gyda bwlch o rhwng 3m a 7m rhwng y rhesi yn ddibynnol ar ffurfiant y tir. .
- 3 gorsaf gwrthdroi a fyddai'n mesur 16m wrth 2.5m a 2.4m o uchel. Fe fyddai'r adeiladau hyn ar ffurf cabinet caeedig a chyfarpar wedi'i ffensio.
- 1 gorsaf ganolog ar gyfer dosbarthu i'r rhwydwaith a fyddai 4.5m x 5m ac yn 2.3m o uchder
- 1 caban cwsmer, 10m x 2.5m x 3.1 o uchder
- 1 ystafell reoli, 3.7m x 2.4m x 2.6m o uchder
- Ffens diogelwch a fyddai'n mesur 2m o uchder o gwmpas yr holl safle
- Camerâu cylch cyfyng ar bolion 2.5m mewn gwahanol leoliadau o gwmpas y safle.
- Ffyrdd mynediad a chylchredeg 3.4m o led wedi eu gwneuthur o agreg wedi'i gywasgu.
- Gosod cebl tanddaearol o'r orsaf ganolog tua'r polyn rhwydwaith 33kv cyfagos
- Compownd adeiladu dros dro, oddeutu 3000m$^2$ mewn cae cyfagos i'r safle

1.5 Mae'r dogfennau a restrir isod wedi eu cyflwyno fel rhan o'r cais:

- Datganiad Cynllunio, Dylunio a Mynediad
- Asesiad Ecolegol
- Asesiad Ddesg o Ansawdd Tir Amaethyddol
- Asesiad Ddesg Treftadaeth
- Datganiad Trafnidiaeth
- Strategaeth Ddraenio
- Datganiad Ymglymiad Cymunedol
- Asesiad Tirwedd ac Effaith Weledol
- Asesiad Effeithiau ar Goed a Chynllun Diogelu Coed
- Cynllun Rheolaeth Bioamrywiaeth
- Asesiad Llacharedd
- Asesiad Effeithiau Sŵn

1.5 Mae'r bwriad yma eisoes wedi ei sgrinio o dan gyfeirnod C15/0399/41/SO a chadarnhawyd nad oedd angen Asesiad Effaith Amgylcheddol yn yr achos yma.

**2. Polisïau Perthnasol:**

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a'r Cynllun Datblygu Unedol.

**2.2 Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd 2009:**

POLISI STRATEGOL 9 – YNNI – Caniateir cynlluniau i ddarparu ynni o ffynonellau adnewyddadwy na fyddai'n niweidio'r amgylchedd neu fwynderau trigolion cyfagos mewn modd arwyddocaol.

POLISI A1 - ASESIADAU AMGYLCHEDDOL NEU ASESIADAU EFFEITHIAU ARALL
Sicrhau fod gwybodaeth ddigonol yn cael ei darparu gyda'r cais cynllunio ynglŷn ag unrhyw effeithiau amgylcheddol neu eraill sylweddol tebygol ar ffurf asesiad amgylcheddol neu asesiadau o effeithiau eraill.

POLISI A3 - EGWYDDOR RAGOFALUS
Gwrthod cynigion os oes unrhyw bosibilrwydd o ddifrod difrifol neu anwrthdroadwy i'r amgylchedd neu'r gymuned os na ellir dangos heb amheuaeth ar ddiwedd asesiad perthnasol o'r effeithiau y gellir negyddu neu liniaru'r effaith.

POLISI B3 - DATBLYGIADAU SY'N EFFEITHIO AR OSODIAD ADEILAD RHESTREDIG
Sicrhau nad yw cynigion yn cael effaith ar osodiad Adeiladau Rhestredig oni bai eu bod yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sydd yn anelu i warchod cymeriad arbennig yr Adeilad Rhestredig a'r amgylchedd lleol.

B7 - SAFLEOEDD O BWYSIGRWYDD ARCHEOLEGOL
Gwrthod cynigion fydd yn difrodi neu ddifetha gweddillion archeolegol o bwysigrwydd cenedlaethol (boed yn rhai cofrestredig ai pheidio) neu eu gosodiad.

Gwrthodir hefyd datblygiad fydd yn effeithio ar weddillion archeolegol eraill oni bai bod yr angen am y datblygiad yn drech nag arwyddocâd y gweddillion archeolegol.

POLISI B15 - GWARCHOD SAFLEOEDD CADWRAETH NATUR O BWYSIGRWYDD RHYNGWLADOL
Gwrthod cynigion sy'n debygol o achosi niwed arwyddocaol i gyfanrwydd safleoedd cadwraeth natur o bwysigrwydd rhyngwladol oni bai eu bod yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i reoli, mwyhau a diogelu nodweddion cydnabyddedig safleoedd o'r fath.

POLISI B16 - GWARCHOD SAFLEOEDD CADWRAETH NATUR O BWYSIGRWYDD CENEDLAETHOL
Gwrthod cynigion sy'n debygol o achosi niwed arwyddocaol i safleoedd cadwraeth natur o bwysigrwydd cenedlaethol oni bai eu bod yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i warchod, mwyhau a rheoli nodweddion cydnabyddedig y safleoedd.

POLISI B17 - GWARCHOD SAFLEOEDD O ARWYDDOCÂD RHANBARTHOL NEU LEOL
Gwrthod cynigion sy'n debygol o achosi niwed arwyddocaol i safleoedd o arwyddocâd rhanbarthol neu leol oni bai eu bod yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i warchod, hyrwyddo a rheoli nodweddion cydnabyddedig y safleoedd.

POLISI B20 - RHYWOGAETHAU A'U CYNEFINOEDD SY'N BWYSIG YN RHYNGWLADOL A CHENEDLAETHOL
Gwrthod cynigion sy'n debygol o achosi aflonyddwch neu niwed annerbyniol i rywogaethau a warchodir a'u cynefinoedd oni bai y gellid cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i ddiogelu nodweddion cydnabyddedig y safle.

B22 - DYLUNIAD ADEILADAU
Hyrwyddo dyluniad adeiladau da drwy sicrhau fod cynigion yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i ddiogelu nodweddion a chymeriad cydnabyddedig y dirwedd a'r amgylchedd lleol.

B23 - MWYNDERAU
Diogelu mwynderau'r gymdogaeth leol drwy sicrhau bod rhaid i gynigion gydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i warchod nodweddion cydnabyddedig a mwynderau'r ardal leol.

B25 - DEUNYDDIAU ADEILADU
Gwarchod cymeriad gweledol trwy sicrhau fod yn rhaid i ddeunyddiau adeiladu fod o safon uchel sy'n gweddu i gymeriad ac edrychiad yr ardal leol.

B27 - CYNLLUNIAU TIRLUNIO
Sicrhau fod cynigion a ganiateir yn ymgorffori tirlunio meddal/caled o safon uchel sy'n briodol ar gyfer y safle ac sy'n ystyried cyfres o ffactorau sy'n anelu i osgoi niwed i nodweddion cydnabyddedig.

POLISI B29 - DATBLYGIADAU AR DIROEDD DAN FYGYTHIAD LLIFOGYDD
Rheoli datblygiad penodol ym mharth llifogydd C1 a C2 a'u cyfeirio tuag at dir addas ym mharth Ac oni bai y gellid cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n berthnasol i nodweddion y safle a phwrpas y datblygiad.

B32 - YCHWANEGU AT DDŴR WYNEB
Gwrthod cynigion na fyddant yn cynnwys mesurau lleihau llif neu fesurau lliniaru priodol fydd yn arwain at ostwng maint a graddfa'r dŵr wyneb fyddai'n cyrraedd ac yn llifo i afonydd a chyrsiau dŵr eraill.

POLISI B33 - DATBLYGIADAU SY'N CREU LLYGREDD NEU BOENDOD
Diogelu amwynderau dynol, ansawdd iechyd a'r amgylchedd naturiol neu adeiledig rhag lefelau uchel o lygredd.

B34 - LLYGREDD GOLAU A GOLEUNI
Sicrhau nad yw cynigion yn amharu'n sylweddol ar amwynder defnydd tir cyfagos a'r amgylchedd.

C1 - LLEOLI DATBLYGIAD NEWYDD
Tir o fewn ffiniau datblygu trefi a phentrefi a ffurf ddatblygedig pentrefi gwledig fydd y prif ffocws ar gyfer datblygiadau newydd. Gwrthodir adeiladau, adeiladweithiau a chyfleusterau atodol newydd yng nghefn gwlad ar wahân i ddatblygiad sy'n cael ei ganiatáu gan bolisi arall yn y Cynllun.

C27 - CYNLLUNIAU YNNI ADNEWYDDADWY A CHYNALIADWY
Caniatáu cynigion am gynlluniau ynni adnewyddadwy a rheoli ynni cyn belled ag y gellir cydymffurfio â chyfres o feini prawf sydd yn ymwneud ag effaith ar ansawdd gweledol y dirwedd a ffactorau amgylcheddol a chymdeithasol.

C28 - DIOGELU TIR AMAETHYDDOL
Gwrthodir cynigion a fyddai'n arwain at golli tir amaethyddol graddau 1, 2 neu 3a oni ellir dangos bod angen hollbwysig am y datblygiad, y gellir profi nad oes tir a ddatblygwyd o'r blaen ar gael ac nad oes tir o raddau amaethyddol is ar gael heblaw tir ag iddo werth amgylcheddol sy'n gorbwyso ystyriaethau amaethyddol.

CH33 - DIOGELWCH AR FFYRDD A STRYDOEDD
Caniateir cynigion datblygu os gellir cydymffurfio gyda meini prawf penodol sydd yn ymwneud a'r fynedfa gerbydau, safon y rhwydwaith ffyrdd presennol a mesurau tawelu traffig.

**2.3 Polisïau Cenedlaethol:**

Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 7) 2014
Nodyn Cyngor Technegol 8: Ynni Adnewyddadwy (2005)
Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio (2014)

**3. Hanes Cynllunio Perthnasol:** Dim hanes cynllunio perthnasol

**4. Ymgynghoriadau:**

| | |
|---|---|
| Cyngor Cymuned/Tref: | Dim gwrthwynebiad |
| Uned Drafnidiaeth: | Dim gwrthwynebiad<br>Angen amod ar gyfer sicrhau Cynllun Rheoli Trafnidiaeth yn cynnwys manylion llwybrau cludiant |
| Uned Llwybrau | Dim sylwadau i'w cynnig oherwydd ni effeithir ar unrhyw hawl tramwy cyhoeddus |

Cyfoeth Naturiol Cymru: Dim gwrthwynebiad

Sylwadau
Wedi astudio'r Strategaeth Ddraenio mae'r risg o lifogydd yn deillio o'r datblygiad yn dderbyniol.
Mae'r drefniant ar gyfer cael gwared o ddŵr wyneb hefyd yn dderbyniol er fod peth pryder bydd wyneb y trac mynediad yn caledu ac felly'n awgrymu amod er sicrhau dyluniad hydraidd.
Awgrymu amod yn gofyn am Asesiad Risg Bioamrywiaeth
Awgrymu amod ar gyfer Cynllun Rheolaeth Adeiladu Amgylcheddol (Construction Environmental Management Plan) er diogelu cyrsiau dŵr.
Mae'r Cynllun Rheolaeth Bioamrywiaeth yn dderbyniol

Dŵr Cymru: Dim gwrthwynebiad ond cynnig amodau oherwydd fod prif bibell ddŵr yn rhedeg drwy'r safle.

Uned Rheoli Risg Llifogydd ac Erydiad Arfordirol: Sylwadau
Cynnig amodau safonol er amddiffyn cyrsiau dŵr.

Gwarchod y Cyhoedd: Dim pryderon ynghylch niwsans sŵn

Swyddog Coed: Dim gwrthwynebiad

Uned Bioamrywiaeth: Dim gwrthwynebiad

Sylwadau
- Cynllun Rheolaeth Bioamrywiaeth - Mae'r cynllun rheolaeth yn dderbyniol ond mae angen amod i sicrhau bydd yn cael ei weithredu a'i fonitro
- Safleoedd Gwarchodedig - Ni ragwelir effaith negyddol ar safleoedd gwarchodedig
- Cynllun Rheolaeth Adeiladu Amgylcheddol - Dylid cyflwyno Cynllun Rheolaeth Adeiladu Amgylcheddol cyn i'r gwaith gychwyn.
- Cyrsiau Dŵr, a Llygredd - Mae'r safle yn agos i'r Afon Wen sydd â phoblogaeth o'r Fisglen Berlog (fresh water pearl mussel) ynddi yn ogystal â physgod mudol megis eog. Mae'r gwaith turio a chodi pridd bwriedig yn codi risg i'r creaduriaid yma. Mae angen i'r datblygwr gyflwyno Cynllun Atal Llygredd (Pollution Prevention Plan) er sicrhau nad oes risg o'r fath yn codi.
- Adar yn nythu - Angen amod i beidio gwneud gwaith ar y safle yn ystod y tymor nythu adar.
- Ffensys - Mae'r cais yn cynnwys manylion y ffensys sy'n dderbyniol o safbwynt bioamrywiaeth
- Gwrychoedd - mae angen amod i sicrhau bod ystod ehangach o rywogaethau'n cael eu plannu yn y gwrychoedd.
- Goleuo - Mae angen amod i sicrhau y cytunir unrhyw fesurau goleuo ar gyfer y safle (os oes eu hangen).

| | |
| --- | --- |
| Gwasanaeth Cynllunio Archaeoleg Gwynedd: | Sylwadau<br><br>Awgryma'r adroddiad archeolegol y bu defnydd hanesyddol o'r safle ar gyfer amaethyddiaeth, sy'n annhebygol o olygu y bydd olion archaeoleg sylweddol, ond yn gyffredinol byddai yn ffafriol i gadwraeth unrhyw gelciau cynharach. Mae'r wybodaeth gyfyngedig bresennol am adnoddau canoloesol a chynharach yr ardal yn golygu fod y posibilrwydd o ddod ar draws tystiolaeth o'r fath ddim yn hysbys.<br><br>Oherwydd hyn, pe byddai caniatâd cynllunio yn cael ei roi, rydym yn argymell fod yr awdurdod lleol yn gofyn bod rhaglen o fesurau lliniaru archeolegol yn cael ei dilyn yn unol â'r canllawiau cynllunio cenedlaethol. |
| Ymgynghoriad Cyhoeddus: | Rhoddwyd rhybudd ar y safle ac yn y papur lleol a gwybyddwyd trigolion cyfagos. Mae'r cyfnod ymgynghori wedi dod i ben a derbyniwyd y gwrthwynebiadau isod ar seiliau cynllunio materol:<br>• Effaith ar fywyd gwyllt gan gynnwys y golled o gynefinoedd a'r effaith ar rywogaethau gwarchodedig<br>• Diogelwch priffyrdd yn ystod y cyfnod adeiladu<br>• Yr effaith niweidiol ar y dirwedd, yn enwedig wrth ystyried yr effaith cronnus<br>• Ni roddwyd ystyriaeth lawn i'r effaith ar fwynderau pob eiddo yr effeithir arnynt<br>• Gall ganiatáu'r datblygiad fod yn niweidiol i fusnesau twristiaeth cyfagos ac i'r diwydiant ymwelwyr lleol<br>• Pryderon ynghylch sŵn cyson<br>• Nad ydy'r coedlannau presennol sy'n sgrinio'r safle dan reolaeth yr ymgeisydd ac ni ellid dibynnu arnynt ar gyfer sgrinio<br>• Nid yw'r plannu a gynhigir yn ddigonol i sgrinio'r safle o eiddo preifat cyfagos<br><br>Derbyniwyd yn ogystal y gwrthwynebiadau isod nad ydynt yn ystyriaethau cynllunio materol :<br>• Ni fydd budd economaidd i'r ardal yr effeithir arni, megis Ynys, ond bydd yr elw yn mynd i un teulu unigol a chwmni rhyngwladol<br>• Ni fydd y paneli'n hyfyw yn economaidd<br>• Pryder na fydd y datblygwyr yn cadw at eu gair yn y dyfodol |

- Dewiswyd y safle oherwydd y boblogaeth isel fel na fyddai llawer o wrthwynebiadau
- Gall caniatáu'r cais osod cynsail ar gyfer ceisiadau eraill
- Bod yr ymgynghoriad ymlaen llaw wedi bod yn annigonol a chamarweiniol
- Materion yn ymwneud a hawliau mynediad preifat

Derbyniwyd hefyd y sylwadau isod sy'n gefnogol i'r cais:

- Mae paneli solar yn llawer mwy derbyniol na thrybini gwynt yn y dirwedd
- Mae sgrinio presennol da i'r safle
- Mae'r safle yn bell o unrhyw ffordd neu hawl tramwy cyhoeddus
- Nid oes gwelfannau sensitif o dir uchel yn goredrych y safle
- Ni fydd angen peilonau newydd i gysylltu â'r grid

Fe wnaethpwyd y sylwadau cyffredinol isod ar y cais :

- Dylid bod amod yn atal cerbydau rhag ddefnyddio'r ffyrdd mynediad cul wedi cwblhau'r datblygiad
- Angen cyfyngu ar sŵn yn ystod y gwaith adeiladu
- Pryder ynghylch y rhywogaethau planhigion a'u defnyddir ar gyfer sgrinio
- Pryder ynghylch capasiti'r rhwydwaith drydan leol ar gyfer rhagor o ddatblygiadau o'r fath heb yr angen i'w huwchraddio e.e. drwy godi peilonau newydd
- Mae angen polisi strategol ynghylch lleoli parciau solar

Mewn ymateb i’r gwrthwynebiadau derbyniwyd ymateb gan yr asiant yn datgan:

- Na fydd y datblygiad yn weladwy o Rhosgyll Fawr.
- Mae presenoldeb y Tŷ Saith Gŵydd yn cael ei gydnabod yn y cais.
- Mae’r asesiad sŵn yn cadarnhau na fydd ardrawiad sŵn annerbyniol yn deillio o’r datblygiad.

## 5. Asesiad o’r ystyriaethau cynllunio perthnasol:

### Egwyddor y datblygiad

5.1 Mae polisi C1 o’r Cynllun Datblygu Unedol yn ymwneud â lleoli datblygiad newydd, ac mae’n datgan mai tir o fewn ffiniau datblygu trefi a phentrefi a ffurf ddatblygedig pentrefi gwledig fydd y prif ffocws ar gyfer datblygiadau newydd. Gwrthodir adeiladau, adeiladweithiau a chyfleusterau atodol newydd yng nghefn gwlad ar wahân i ddatblygiad sy’n cael ei ganiatáu gan bolisi arall yn y Cynllun. Mae datblygiadau cynhyrchu ynni adnewyddadwy sy’n defnyddio adnoddau naturiol yn cael ei nodi yn benodol fel datblygiad a ellir fod yn addas ac sy’n cael ei ganiatáu gan

bolisi arall yn y cynllun, ac felly ystyrir fod y bwriad yn cydymffurfio â gofynion y polisi yn y modd yma. Er hyn, ai'r polisi ymlaen i ddatgan fod adeiladau, adeiladwaith a chyfleusterau atodol newydd yng nghefn gwlad yn cael eu rheoli yn llym ac a dylid sicrhau perthynas weledol dda rhyngddynt a datblygiadau presennol lle bynnag y bod modd, mae hyn yn cael ei asesu yn unol â'r polisïau perthnasol hynny isod.

5.2 Mae polisi C27 o'r Cynllun Datblygu Unedol yn ymwneud â chynlluniau ynni adnewyddadwy a chynaliadwy, ac mae'n caniatáu cynigion am gynlluniau ynni adnewyddadwy a rheoli ynni cyn belled ag y gellir cydymffurfio â chyfres o feini prawf sydd yn ymwneud ag effaith ar ansawdd gweledol y dirwedd a ffactorau amgylcheddol a chymdeithasol.

5.3 Mae maen prawf rhif 1 o'r polisi yn nodi na ddylai unrhyw fwriad olygu lleoli cynllun gyda chynhwysedd uwch na 5MW o fewn AHNE Llŷn, neu na fyddai unrhyw gynllun sydd wedi cael ei leoli tu allan i AHNE Llŷn yn achosi niwed arwyddocaol i'w osodiad neu osodiad AHNE Llŷn/Môn neu Barc Cenedlaethol Eryri. Yn yr achos yma, nid yw'r bwriad wedi ei leoli o fewn nac yn agos i AHNE Llŷn nac ychwaith ydyw'n debygol o gael unrhyw effaith niweidiol ar olygfeydd i mewn neu allan o AHNE Llŷn na Pharc Cenedlaethol Eryri. Fe ystyrir felly fod y bwriad yn cydymffurfio gyda'r maen prawf yma o bolisi C27.

5.4 Mae maen prawf rhif 2 o'r polisi yn nodi y dylai math, graddfa a dyluniad y datblygiad arfaethedig fod yn briodol o safbwynt y safle, y lleoliad a'r effaith ar y dirwedd. Mae'r bwriad ar gyfer darparu paneli solar ar dir sy'n ymestyn am 9.05ha. Mae gwaith gan gwmni Gillespies ar ran y Cyngor yn asesu sensitifrwydd a chapasiti'r dirwedd i ymdopi gyda mathau penodol o ddatblygiadau. Yn ôl y gwaith sydd wedi ei wneud, mae safle'r cais yma wedi ei leoli o fewn Ardal Cymeriad Tirwedd G10 Canoldir Llŷn, ac ai'r gwaith ymlaen i ddatgan fod peth capasati o fewn yr ardal yma (y tu allan i'r AHNE a'r dirwedd sy'n ffurfio ei osodiad) ar gyfer datblygiadau ynni solar PV ar lefel micro (h.y. o dan 1 hectar mewn maint). Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi fod yr asesiad yma hefyd yn amlygu fod sensitifrwydd yn amrywio yn lleol o fewn yr Ardal Cymeriad Tirwedd, ac y dylid ystyried y dystiolaeth sydd ar gael ynghyd ag ymweld â phob safle'n unigol cyn penderfynu os yw natur y safle penodol yn golygu y gellir ymdopi gyda datblygiad ar raddfa fwy na'r hyn a argymhellir yng ngwaith Gillespies.

5.5 Yn yr achos yma, mae'r ymgeisydd wedi cyflwyno Asesiad Tirwedd ac Effaith Weledol (ATEW) ar gyfer y bwriad. Mae'r dirwedd o fewn y safle ac o'i amgylch, yn arbennig felly'r llystyfiant aeddfed sydd yn gysylltiedig gyda'r gwrychoedd ar ffiniau'r caeau, ynghyd a'r coedlannau cyfagos, yn gymorth i integreiddio'r datblygiad i'r dirwedd oddi amgylch. Daw'r ATEW i'r casgliad , oherwydd natur isel y datblygiad, llystyfiant presennol a ffurf donnog y dirwedd, mai bychan fyddai effaith y bwriad ar gymeriad tirwedd yr ardal leol. Ni fyddai unrhyw effaith niweidiol arwyddocaol ar yr AHNE nac ar unrhyw olygfeydd i mewn neu allan o'r ardal warchodedig. Mae'r ATEW hefyd yn cyfeirio at fesurau lliniaru ar ffurf tirweddu ychwanegol yn cynnwys llenwi bylchau yn y gwrychoedd a waliau presennol.

5.6 O ystyried bod safle'r paneli solar eisoes yn dra cuddiedig o'r tu allan i'r safle ac o sicrhau drwy amodau cynlluniau atgyfnerthiad i'r sgrinio i'w cuddio hyd yn oed yn fwy effeithlon, ni ystyrir bydd effaith niweidiol arwyddocaol ar dirwedd yr ardal yn deillio o'r datblygiad. Ni fydd effaith niweidiol ar olygfeydd nodedig o unrhyw weledfan cyhoeddus poblogaidd. Yn sgil hyn fe ystyrir fod y bwriad yn cydymffurfio gyda gofynion maen prawf 2 o bolisi C27.

5.7 Mae maen prawf rhif 3 o’r polisi yn nodi y dylai unrhyw gyfarpar atodol cysylltiedig fod wedi ei ddylunio a’i leoli mewn modd fydd yn lleddfu’r effaith weledol ar y dirwedd. Mae’r bwriad yma yn cynnwys gosod 3 gorsaf gwrthdroi, 1 gorsaf ganolog, 1 caban cwsmer ac ystafell reoli. Fe ystyrir y byddai'r strwythurau hyn yn eithaf bychan o ran maint ac y gellid eu lliwio i adlewyrchu’r adeiladau amaethyddol a welir o gwmpas yr ardal. Mae bwriad hefyd i osod ffens ddiogelwch gwrth stoc i uchder o 2m o gwmpas y safle ynghyd a chamerâu cylch cyfyng wedi eu lleoli ar bolion 2.5m o uchel. Fe fyddai'r ffens o amgylch y safle yn eithaf uchel, ond, oherwydd presenoldeb y gwrychoedd aeddfed o gwmpas y safle ni ystyrir y byddai’r ffens, na’r camerâu diogelwch, yn ychwanegu’n sylweddol at yr effaith weledol ac eto gellir amodi’r lliwiau er mwyn gweddu gyda'r leoliad. Ar sail hyn felly, ystyrir fod y cyfarpar atodol yn addas ac na fyddai’n debygol o gael effaith sylweddol ar y dirwedd, ac felly fod y bwriad yn cydymffurfio gyda gofynion maen prawf 3 o bolisi C27.

5.8 Mae maen prawf rhif 4 yn nodi na ddylai unrhyw wifrau na phibellau uwchben cysylltiedig achosi unrhyw niwed arwyddocaol i ansawdd gweledol y dirwedd. Mae'r cais yn cynnwys cyswllt gyda'r rhwydwaith cenedlaethol drwy wifrau tanddaearol ac felly fe ystyrir felly fod y bwriad yn cydymffurfio â gofynion y maen brawf yma o Bolisi C27.

5.9 Mae maen prawf rhif 5 o’r polisi yn nodi na ddylai’r datblygiad arfaethedig beri cynnydd annerbyniol mewn lefelau sŵn, drewdod, llwch na nwyon. Nid yw natur y datblygiad yma yn golygu y bydd unrhyw gynnydd arwyddocaol yn y problemau hyn yn ystod y cyfnod gweithredol ac nid oes gan Uned Gwarchod y Cyhoedd unrhyw bryderon ynghylch y datblygiad. Mae’n anorfod bydd cyfnod o aflonyddwch lleol wrth adeiladu'r cyfleuster, ond o ystyried mai'r bwriad yw cwblhau'r datblygiad dros gyfnod o 12 wythnos, ni ystyrir bod y cyfnod cyfyngedig hwn o aflonyddwch yn annerbyniol ac fe ystyrir felly fod y bwriad yn cydymffurfio â gofynion maen prawf rhif 5 o bolisi C27.

5.10 Mae maen prawf rhif 6 o’r polisi yn nodi na ddylai’r bwriad achosi unrhyw niwed annerbyniol i systemau hydrolegol (dŵr daear a dŵr wyneb) gan niweidio bioamrywiaeth. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru ac Uned Bioamrywiaeth y Cyngor wedi cadarnhau nad oes unrhyw wrthwynebiad i’r bwriad mewn egwyddor ac fe drafodir materion yn ymwneud a llif dŵr a bioamrywiaeth ymhellach isod. Ar y cyfan, o osod amodau priodol mewn lle, fe ystyrir bydd y bwriad yn cydymffurfio a gofynion maen prawf rhif 6 Polisi C27.

5.11 Mae maen prawf rhif 7 o’r polisi yn nodi na ddylai'r datblygiad gynhyrchu lefelau traffig annerbyniol o ystyried ansawdd y ffyrdd a natur yr ardal oddi amgylch. Yn yr achos yma, dim ond traffig yn ystod cyfnod adeiladu sy’n berthnasol, ac mae Uned Drafnidiaeth y Cyngor wedi cadarnhau nad oes ganddynt wrthwynebiad i'r gais dim ond i Gynllun Rheoli Trafnidiaeth derbyniol fod mewn lle cyn dechrau'r datblygiad. Ystyrir felly na fydd y datblygiad yn achosi lefelau traffig annerbyniol, a bod y bwriad yn cydymffurfio â gofynion y maen prawf yma o bolisi C27.

5.12 Ar sail yr uchod, fe ystyrir fod y bwriad yn cydymffurfio gyda holl feini prawf polisi C27.

5.13 Mae polisi C28 o Gynllun Datblygu Unedol Gwynedd yn ymwneud a diogelu tir amaethyddol a gwrthodir cynigion a fyddai’n arwain at golli tir amaethyddol graddau 1, 2 neu 3a oni ellir dangos bod angen hollbwysig am y datblygiad, y gellir profi nad oes tir a ddatblygwyd o’r blaen ar gael ac nad oes tir o raddau amaethyddol is ar gael

heblaw tir ag iddo werth amgylcheddol sy’n gorbwyso ystyriaethau amaethyddol. Yn yr achos yma, mae adroddiad sydd wedi ei gyflwyno fel rhan o’r cais yn cadarnhau fod y tir yn nosbarth 5, ac felly mae’r bwriad yn cydymffurfio a gofynion polisi C28 uchod. Fe nodir yn ogystal fod bwriad parhau i bori defaid ar y safle tra bydd y paneli solar yn eu lle.

5.14 Ar sail yr uchod, fe ystyrir fod egwyddor y bwriad yn dderbyniol o safbwynt prif bolisïau perthnasol y Cynllun Datblygu Unedol a'i fod hefyd yn cyd-fynd gyda’r Polisi Strategol 9 ar gyfer darparu ynni o ffynonellau adnewyddadwy.

**Dyluniad a deunyddiau**

5.15 Mae polisi B22 o Gynllun Datblygu Unedol Gwynedd yn hyrwyddo dyluniad adeiladu da drwy sicrhau fod cynigion yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy’n anelu at ddiogelu nodweddion a chymeriad cydnabyddedig y dirwedd a’r amgylchedd lleol. Fel y trafodir uchod, mae’r bwriad yma'n cynnwys codi adeiladau ar gyfer cyfarpar ond fe fyddai'r rhain yn weddol fychan ac fe ellir cytuno ar eu gorffeniad terfynol drwy amod priodol. Mae bwriad hefyd i osod ffens ddiogelwch ynghyd a chamerâu cylch cyfyng. Oherwydd natur guddiedig bresennol y safle ynghyd a'r bwriad i atgyfnerthu'r sgrinio, ystyrir fod yr adeiladau a’r strwythuron sy’n atodol i’r paneli PV yn addas, ac na fyddent yn achosi effaith sylweddol ar y dirwedd, ac felly fod y bwriad yn cydymffurfio a gofynion polisi B22.

5.16 Mae polisi B25 o’r Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd yn ymwneud gyda gwarchod cymeriad gweledol trwy sicrhau fod yn rhaid i ddeunyddiau adeiladu fod o safon uchel sy’n gweddu i gymeriad ac edrychiad yr ardal leol. Fe ystyrir, trwy sicrhau gorffeniad i'r strwythurau cefnogol i adlewyrchu adeiladau amaethyddol a natur cefn gwlad y safle, fod y bwriad yn cydymffurfio gyda gofynion polisi B25.

**Tirlunio**

5.17 Mae polisi B27 o’r Cynllun Datblygu Unedol yn ymwneud gyda sicrhau fod cynigion a ganiateir yn ymgorffori tirlunio meddal/caled o safon uchel sy’n briodol ar gyfer y safle ac sy’n ystyried cyfres o ffactorau sy’n anelu i osgoi niwed i nodweddion cydnabyddedig. Mae’r datblygiad yn cynnwys bwriad i dirweddu’r safle drwy atgyfnerthu'r gwrychoedd o gwmpas y caeau ble lleolir y paneli. Cytunir y byddai'r mesurau tirweddu hyn yn addas, er hyn, derbyniwyd sylwadau gan fioamrywiaeth yn nodi ond eithin fydd yn cael ei blannu a hoffwn weld fwy o amrywiaeth o goed a phrysgwydd cynhenid yn cael eu plannu. Ystyrir fod hyn yn rhesymol a bod modd sicrhau hyn drwy osod amod cynllunio priodol. Ystyrir felly fod y bwriad yn cydymffurfio a gofynion polisi B27 yn ogystal â C27 a drafodir uchod.

**Mwynderau cyffredinol a phreswyl**

5.18 Mae polisi B23 o’r Cynllun Datblygu Unedol yn ymwneud a diogelu mwynderau’r gymdogaeth leol. Mae meini prawf y polisi yma’n cyfeirio at sicrhau preifatrwydd rhesymol i ddefnyddwyr eiddo gerllaw, sicrhau na fydd y datblygiad yn golygu gor-ddatblygiad o’r safle, sicrhau na fydd y datblygiad yn ychwanegu at draffig na’r sŵn sy’n gysylltiedig â thraffig, fod y cynllun yn lleihau cyfleoedd i unigolion ymddwyn yn anghymdeithasol neu greu awyrgylch lle mae pobl yn teimlo’n ddiogel i gerdded, beicio a chwarae, a bod dyluniad a chynllun allanol y datblygiad yn ystyried anghenion ei holl ddefnyddwyr posib.

5.19 Yn yr achos yma, mae dogfennau ychwanegol (sydd wedi'u rhestru yn y disgrifiad o'r cais) wedi eu cyflwyno fel rhan o'r cais ac mae'r wybodaeth sy'n cael ei gynnwys yn y dogfennau yn datgan na fydd y datblygiad yn achosi unrhyw niwsans neu lacharedd anaddas o ganlyniad i'r haul ddisgleirio, ac na fydd y bwriad yn achosi effaith weledol niweidiol arwyddocaol. Fe dderbyniwyd gohebiaeth yn gwrthwynebu oddi wrth dai cyfagos yn bennaf ar sail yr effaith ar y tirlun a'r golygfeydd o'i eiddo. Wrth dderbyn ei fod yn bosibl bydd rhannau o'r safle yn weladwy o'r eiddo, oherwydd ffurf y tir, tyfiant presennol a phellter yr eiddo o'r safle, ni chredir bydd y datblygiad yn ormesol i breswylwyr ac na fyddai'r effaith ar y tirlun mor niweidiol i gyfiawnhau gwrthod y cais.

5.20 Derbyniwyd gwrthwynebiadau ar sail effaith y datblygiad ar ddiogelwch priffyrdd. Mae dogfennau'r cais yn cydnabod bydd effaith mwyaf y datblygiad yn gyfyngedig i'r cyfnod adeiladu o 12 wythnos. Mae'r Uned Trafnidiaeth Cyngor Gwynedd yn cadarnhau bod modd sicrhau rheoli llif traffig yn effeithiol trwy osod amod cynllunio i gytuno cynllun rheoli trafnidiaeth ac ystyrir byddai hyn yn gwarchod mwynderau preswyl a chyffredinol i lefel dderbyniol yn ystod y cyfnod adeiladu. Er bod y safle yn sylweddol, ni ystyrir fod y bwriad yn golygu gor-ddatblygiad o'r safle yn yr achos yma, ac ystyrir mai dim ond rhannau o'r safle fyddai'n weladwy o'r tu allan ac yn y dirwedd ehangach. Ystyrir felly fod y bwriad yn cydymffurfio gyda gofynion polisi B23 uchod.

5. 21 Mae polisi B33 yn diogelu amwynderau dynol, ansawdd iechyd a'r amgylchedd naturiol neu adeiledig rhag lefelau uchel o lygredd aer, dwr, sŵn neu bridd. Derbyniwyd pryderon gan drigolion am effaith sŵn ond nid oedd gan yr Uned Gwarchod y Cyhoedd pryderon am niwsans sŵn yn deillio o'r datblygiad. Ystyrir fod y cais yn unol â pholisi B33.

5.22 Mae polisi B34 o'r Cynllun Datblygu Unedol yn ymwneud â llygredd golau a goleuni ac mae'n sicrhau nad yw cynigion yn amharu'n sylweddol ar amwynder defnydd tir cyfagos a'r amgylchedd. Mae'r polisi yma'n benodol yn ymwneud â chynlluniau golau, ond mae eglurhad y polisi hefyd yn cyfeirio at effaith llacharedd. Ar sail y wybodaeth sydd wedi ei gyflwyno fel rhan o'r cais, ni ystyrir fod effaith llacharedd yn sylweddol nac yn niweidiol yn yr achos yma. Yn ogystal, bydd amod cynllunio yn cael ei osod ar unrhyw ganiatâd cynllunio i sicrhau fod y deunyddiau a ddefnyddiwyd yn lleihau effaith llacharedd cymaint â phosib. Ystyrir felly fod y bwriad yn cydymffurfio a gofynion polisi B34 uchod.

**Materion trafnidiaeth a mynediad**

5.23 Mae polisi CH33 o'r Cynllun Datblygu Unedol yn ymwneud a sicrhau diogelwch ar ffyrdd a strydoedd. Yn yr achos yma, dim ond yn ystod y cyfnodau adeiladu a dadgomisiynu bydd unrhyw gynnydd mewn llif traffig. Mae'r datblygiad yn dderbyniol mewn egwyddor gan yr Uned Trafnidiaeth ond bod gofyn cytuno Cynllun Rheoli Trafnidiaeth cyn dechrau'r datblygiad. Fe ystyrir felly fod y bwriad yn cydymffurfio a gofynion polisi CH33.

**Materion Cadwraeth ac Archeolegol**

5.24 Mae polisi B7 o'r Cynllun Datblygu Unedol yn ymwneud â safleoedd o bwysigrwydd archeolegol, ac mae'n gwrthod cynigion fydd yn difrodi neu ddifetha gweddillion archeolegol o bwysigrwydd cenedlaethol (boed yn rhai cofrestredig ai pheidio) neu eu gosodiad. Gwrthodir hefyd datblygiad fydd yn effeithio ar weddillion archeolegol eraill oni bai bod yr angen am y datblygiad yn drech nag arwyddocâd y gweddillion

archeolegol. Mae Gwasanaeth Cynllunio Archeoleg Gwynedd wedi gwerthuso'r Asesiad Ddesg Treftadaeth a chadarnhawyd fod peth potensial ar gyfer darganfyddiadau archeolegol pellach ar y safle. Golygai hyn bydd angen sicrhau y gweithredir mewn modd sy'n amddiffyn archeoleg y safle drwy gytuno ar ddulliau gweithredu drwy amod cynllunio.

5.25 Mae Polisi B7 hefyd yn gofyn amddiffyn gosodiad safleoedd sydd o bwysigrwydd archeolegol. Fe fyddai'r datblygiad yn weledol o Heneb Carn Pentyrch, sydd 2.5km i'r gogledd orllewin, ac fe aseswyd hyn yn yr Asesiad Ddesg Treftadaeth. Daeth hwn i'r casgliad, er y byddai'r safle'n weladwy o'r heneb, ni fyddai'n niweidio'r cyd-destun hanesyddol nac yn amharu ar y golygfeydd eang o'r safle ac fe gytunir gyda'r dadansoddiad hwn.

5.26 O ystyried yr uchod, o sicrhau rhaglen waith briodol ar gyfer archeoleg, fe ystyrir fod y bwriad yn cydymffurfio gyda gofynion polisi B7.

5.27 Mae polisi B3 yn gwarchod gosodiad adeiladau rhestredig ac yn ychwanegol mae Adran 66(1) o'r Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) yn datgan y dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol roi sylw arbennig i ddymunoldeb o gadw/diogelu gosodiad adeilad rhestredig. Mae'r safle wedi ei leoli o fewn 2.5km i sawl adeilad rhestredig ond yn ôl yr Asesiad Archeoleg a Threftadaeth Ddiwylliannol ni fyddai unrhyw effaith ar unrhyw adeilad rhestredig. Yn ogystal fel y trafodwyd uchod, mae'r safle wedi ei amgylchynu gan goed, gwrychoedd a chloddiau aeddfed ac o ganlyniad ni ystyrir y byddai'r bwriad yn sefyll allan yn amlwg iawn yn y dirwedd. Bwriedir hefyd atgyfnerthu'r llystyfiant presennol ar y safle ac ar gyrion y safle. Yn sgil hyn, ni ystyrir fod y bwriad yn debygol o achosi niwed arwyddocaol i osodiad yr adeiladau rhestredig ac ystyrir felly fod y bwriad yn cydymffurfio a gofynion polisi B3.

**Materion Bioamrywiaeth**

5.28 Mae'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd yn codi pryder am effaith y datblygiad ar fioamrywiaeth a phresenoldeb rhywogaethau a warchodir yn yr ardal. Nid oes gan yr Uned Bioamrywiaeth na Chyfoeth Naturiol Cymru wrthwynebiadau i'r agwedd hon o'r cais o sicrhau mesurau lliniaru a rheolaethol priodol ar gyfer y safle a'i gyffiniau a fydd yn amddiffyn buddiannau nodweddion bioamrywiaeth.

5.29 O sicrhau y gweithredir y Cynllun Rheolaeth Bioamrywiaeth a bod amodau addas mewn lle i warchod buddiannau rhywogaethau a chynefinoedd, fe ystyrir y byddai'r cynllun yn cwrdd ag amcanion polisïau B15, B16, B17 a B20 y CDU sy'n anelu at amddiffyn nodweddion bioamrywiaeth nodedig.

**Materion llifogydd**

5.30 Mae Strategaeth Ddraenio wedi ei dderbyn fel rhan o'r cais sy'n asesu'r safle a'r datblygiad yn nhermau effaith ar ddŵr wyneb. Mae'r Uned Rheoli Risg Llifogydd ac Erydiad Arfordirol, yr Uned Bioamrywiaeth a Chyfoeth Naturiol Cymru yn cytuno gyda chanlyniad yr adroddiad ac yn cytuno, o osod amodau priodol, gan gynnwys sicrhau y cyflwynir Cynllun Atal Llygredd, y gellir delio gyda'r llif mewn modd sy'n addas, ac felly ystyrir na fydd y bwriad yn achosi ychwanegiad annerbyniol mewn dŵr wyneb ac felly fod y bwriad yn cydymffurfio a gofynion polisi B32 o'r CDU.

**Cyfnod gweithredol**

5.31 Mae'r cais yn gofyn am gyfnod gweithredol hwy na'r arfer ar gyfer datblygiadau o'r fath. Wrth ystyried y byddai'r datblygiad yn parhau i fod yn un dros-dro ac nad yw'r ychwanegiad at y cyfnod yn un arwyddocaol o safbwynt unrhyw ystyriaeth cynllunio arwyddocaol, fe ystyrir bod caniatáu'r datblygiad am 30 mlynedd yn hytrach na'r 25 mlynedd arferol yn dderbyniol.

**Yr ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus**

5.32 Mae'r asesiad uchod yn rhoi ystyriaeth lawn i'r sylwadau a dderbyniwyd ar y cais o ganlyniad i'r cyfnod ymgynghori cyhoeddus ac ni ystyrir fod unrhyw fater cynllunio perthnasol wedi ei dderbyn sy'n gorbwyso'r ystyriaethau polisi perthnasol.

**6. Casgliadau:**

6.1 O ganlyniad i'r asesiad uchod, ni ystyrir fod y bwriad yn groes i unrhyw un o'r polisïau perthnasol a nodir uchod ac nad oes yna unrhyw fater cynllunio perthnasol arall sy'n datgan i'r gwrthwyneb. Ystyrir felly fod y bwriad yn dderbyniol yn ddarostyngedig i amodau perthnasol.

**7. Argymhelliad:**

7.1 Caniatáu gydag amodau

1. Amser cychwyn y datblygiad
2. Cwblhau'r datblygiad yn unol â'r cynlluniau
3. Rhaid lleoli'r paneli yn y lleoliadau a ddangosir ar y cynlluniau neu fel y cytunwyd mewn ysgrifen gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol.
4. Caniatâd 30 mlynedd, datganiad dull i glirio'r safle ac atgyweirio'r tir.
5. Cytuno deunyddiau/lliwiau'r fframiau a'r gorchudd di-llacharedd.
6. Cytuno ar ddeunyddiau/lliwiau'r ffens a'r polion camerâu
7. Cytuno a chwblhau cynllun tirlunio a chynllun rheolaeth tirlunio
8. Cytuno a gweithredu Rhaglen Waith Archeolegol.
9. Dylid gosod unrhyw geblau trydan o'r datblygiad i'r cysylltiad trydanol o dan ddaear.
10. Cytuno unrhyw systemau goleuo'r safle.
11. Amodau Priffyrdd – Cynllun rheoli trafnidiaeth.
12. Cwblhau'r datblygiad yn unol â'r Cynllun rheoli bioamrywiaeth a'r cynllun monitro.
13. Cytuno a gweithredu Cynllun Rheolaeth Adeiladu Amgylcheddol.
14. Dim gwaith clirio llystyfiant yn ystod y tymor nythu adar.
15. Cytuno deunyddiau allanol yr holl adeiladau.